Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SWYDDI DIRPRWY GYFARWYDDWR CYLLID AMRYWIOL

Proffesiwn Cyllid

Grwpiau Amrywiol

Llywodraeth Cymru

Civil Service Commissioners

Cynnwys

1. **Neges o Groeso**
2. **Cefndir Llywodraeth Cymru**
3. **Rôl y Gyfarwyddiaeth Busnes a'r Rhanbarthau**
4. **Cyfrifoldebau Allweddol**
5. **Manyleb y Person**
6. **Development Opportunities of the Post Cyfleoedd**
7. **Sut i Wneud Cais**
8. **Y Broses Ddethol**
9. **Telerau'r Penodiad**

1. **Neges o Groeso**

Diolch ichi am ddangos diddordeb yn rôl dirprwy gyfarwyddwr cyllid. Mae nifer o swyddi ar gael mewn meysydd gwahanol iawn o'r busnes. Er hynny, gobeithio y bydd y pecyn hwn yn rhoi blas i chi o'r math o waith yr ydych yn debygol o fod yn ei wneud ac yn eich annog i fynd ati i gwblhau cais.

Mae gweithio o fewn y proffesiwn cyllid o fewn Llywodraeth Cymru yn wahanol iawn i rolau cyllid mewn adrannau eraill yn y gwasanaeth sifil neu gyrff sector cyhoeddus ehangach gan ein bod yn cefnogi Llywodraeth ddatganoledig sy'n gweithio ar draws ystod eang o'r sector cyhoeddus gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, yr economi, trafnidiaeth a newid yn yr hinsawdd. Mae'r proffesiwn cyllid yn ymwneud â datblygu a gweithredu polisïau, darpariaeth a llywodraethiant a hyd yn oed gefnogi creu cyfreithiau newydd i Gymru. Mae staff cyllid hefyd yn goruchwylio'r gwaith o ariannu nifer o gyrff a noddir.

Fel dirprwy gyfarwyddwr yn y swyddogaeth gyllid byddwch yn ymuno â grŵp bach o staff cyllid SCS sy'n gweithio ar draws y sefydliad, gan gynghori a dylanwadu ar uwch swyddogion mewn ystod eang o feysydd polisi a chyflawni. Mae'r grŵp hefyd yn gyfrifol am ddatblygu gallu holl aelodau'r proffesiwn ar y cyd.

Heb os, mae'r rolau'n heriol o ystyried ehangder y cyfrifoldebau polisi a chyflawni a arferir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, maent hefyd yn rhoi boddhad mawr wrth ichi gael gweld yn uniongyrchol sut y mae eich cyfraniad yn gwella bywydau pobl Cymru. Mae ehangder y cyfrifoldebau hefyd yn darparu ar gyfer cyfleoedd digyffelyb i ddatblygu sgiliau newydd – gan gynnwys cynghori'r Gweinidogion yn uniongyrchol, cymryd rhan mewn meysydd amrywiol iawn o'r Llywodraeth a gweithio gydag ystod eang o gydweithwyr proffesiynol eraill.

Os ydych yn ystyried gwneud cais ac os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â RecriwtioUWS@llyw.cymru

2. Cefndir Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb flynyddol o ryw £18 biliwn, ac mae'n gyfrifol am amrywiaeth o feysydd gan gynnwys iechyd, addysg a sgiliau, yr economi a thrafnidiaeth, ac amaethyddiaeth a'r amgylchedd.

Prif Weinidog Cymru a'i Gabinet sy'n ffurfio Llywodraeth Cymru ac yn gwneud penderfyniadau mewn meysydd cyfrifoldeb datganoledig. Mae Gweinidogion Cymru yn atebol i Senedd Cymru, sef corff deddfwriaethol Cymru sy'n cynnwys 60 o Aelodau etholedig. Mae Gweinidogion Cymru'n cael eu cefnogi gan weithlu o ryw 5,000 o weision sifil, gyda rhyw hanner ohonynt yn gweithio yng Nghaerdydd a'r gweddill yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled Cymru. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddfeydd bach yn Llundain a Brwsel hefyd, a swyddfeydd dramor sy'n canolbwyntio ar waith masnachu a buddsoddi. Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n arwain Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ac mae'n atebol i'r Prif Weinidog ac i Weinidogion Cymru.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn werthoedd craidd gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn anelu at fod yn gyflogwr sy'n dangos esiampl enghreifftiol ac mae ein gwaith yn cael ei danategu gan: Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Bwrdd, rhwydweithiau amrywiaeth bywiog a gefnogir gan uwch hyrwyddwyr, gan osod targedau amrywiaeth i wella nifer y grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (er enghraifft, pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a staff anabl ar bob lefel a menywod ar lefelau uwch). Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r model cymdeithasol o anabledd yn y sefydliad ac i wneud addasiadau recriwtio ac addasiadau yn y gweithle i sicrhau cydraddoldeb i staff anabl. Mae Ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021 – 2026 yn nodi ein bwriad i fod yn sefydliad sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn llawn ar bob lefel, sy'n wrth-hiliol ac sy'n gwrthsefyll gwahaniaethu o bob math. Mae ein Cynllun Gweithredu Cymru wrth-hiliol yn amlinellu ein hymrwymiad i adeiladu Cymru wrth-hiliol, y gall pob un ohonom fod yn falch o berthyn iddi, a ffynnu ynddi.

Mae ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a'r negodiadau rhyngwladol dilynol – ar ddyfodol y berthynas rhwng y DU/UE ac ar gytundebau masnach y DU gyda gwledydd eraill – yn arwain at oblygiadau sylweddol i Gymru ac i waith Llywodraeth Cymru. Mae ein perthynas gyfansoddiadol â Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill yn parhau i ddatblygu.

Yn ogystal, yn yr un modd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Safonau'r Gymraeg, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth Sifil weithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol i wella'r gwaith o ddatblygu polisïau a'r gwella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gorff dwyieithog; caiff deddfwriaeth ei llunio yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae gan y ddwy iaith statws cyfreithiol cyfartal.

Rhaid i'r ymgeiswyr ddangos eu bod yn cydnabod gwerth dwyieithrwydd a'u bod yn rhannu ein hymrwymiad i hybu'r Gymraeg er mwyn sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym yn annog ac yn cefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

3. Rôl y Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyllid

Gyda'r heriau i gyllid cyhoeddus a achoswyd gan y pandemig, mae rôl y tîm cyllid bellach yn bwysicach nag erioed gyda'r cyfyngiadau presennol ar adnoddau a chann wybod i sicrwydd y bydd y pwysau ariannol yn mynd yn dynnach. Mae gwaith a strwythur y cyfarwyddiaethau yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr adnoddau a ddyrennir yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol a'u bod yn cael eu llywodraethu i'r safonau uchaf.

Diben y Swyddi

Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid yn gyfrifol am:

- Arweinyddiaeth a rheolaeth tîm o uwch weithwyr cyllid proffesiynol o ddydd i ddydd a sicrhau ansawdd eu gwaith a'u hallbynnau;
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau neu'r Cyfarwyddwr Cyllid i ddatblygu ansawdd a gallu arbenigedd a safonau rheolaeth ariannol a llywodraethu ariannol i weithredu i'r safonau uchaf; a
- Dirprwyo ar ran y Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau neu'r Cyfarwyddwr Cyllid, yn ôl y gofyn

Bydd gan y Dirprwy Gyfarwyddwr gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau ansawdd ac amseroldeb y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid mewnol allweddol, gan gynnwys; y Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion, y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Chyfarwyddwyr Gweithredol Adrannol. Bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr yn aelod allweddol o'r Grŵp Penaethiaid Cyllid a bydd disgwyl iddo gydweithio drwy'r Grŵp a chyda'r Grŵp hwnnw i hyrwyddo rheolaeth ariannol dda a phroffesiynoldeb ar draws Llywodraeth Cymru.

4. Cyfrifoldebau allweddol

Mae nifer o swyddi ar gael yn y proffesiwn cyllid. Dyma'r prif gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swyddi hyn fel arfer:

Cyfrifoldebau allweddol

- Rhoi cyngor ariannol strategol i'r Gweinidogion ar amrywiaeth o bynciau ariannol, gan gynnwys rheoli cyllidebau yn ystod y flwyddyn, a chillidebau terfynol, drafft ac atodol.
- Rhoi cyngor ariannol proffesiynol i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau neu'r Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwyr, y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a'r Gweinidogion.
- Atebolrwydd am ansawdd, gweithrediad effeithlon ac effeithiol Is-adran Cyllid, Llywodraethiant a Chynllunio Busnes y Grŵp ac am ddefnyddio adnoddau ac arbenigedd staff yn briodol o ddydd i ddydd i gyflawni hyn.
- Rhoi arweiniad strategol i dimau Cyllid y Grŵp er mwyn darparu ffyrdd o weithio sy'n gwella'n barhaus ac i reoli gwybodaeth ar draws y Grŵp a Llywodraeth Cymru.
- Darparu arweinyddiaeth broffesiynol i'r gymuned gyllid ehangach o fewn y grŵp, gan reoli ac ysgogi'r gymuned yn ei datblygiad proffesiynol;
- Rhoi arweiniad strategol i dimau Cyllid y Grŵp er mwyn darparu ffyrdd o weithio sy'n gwella'n barhaus.
- Cynnal perthynas waith dda gyda chydweithwyr cyllid proffesiynol ar draws Llywodraeth Cymru a'r sectorau cyhoeddus a phreifat ehangach gan gynnwys dirprwyo ar ran Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau neu Gyfarwyddwr Cyllid y Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a Grwpiau eraill yn ôl yr angen.
- Cynllunio strategol a gweithredol blynyddol ar gyfer yr Is-adran Gyllid gan gydbwyso'r defnydd o amser ac adnoddau staff ar draws y blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd a nodir yng nghynllun busnes y gyfarwyddiaeth sy'n cwmpasu cynllunio ariannol; rheoli cyllidebau; cyfrifon ariannol; adroddiadau ariannol; llywodraethu a rheoli ariannol; a chynllunio busnes.
- Goruchwylio asesiadau Pennaeth y Gangen o oblygiadau ariannol a gwerth am arian cynigion gwariant cyllideb rhaglenni ac achosion busnes; gan gynnwys clirio cyngor gweinidogol cyson.
- Rhoi cyngor proffesiynol ynghylch ymyriadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn enwedig mewn perthynas â phryderon rheolaeth neu lywodraethu ariannol, a chomisiynu cymorth allanol lle bo hynny'n briodol.
- Sicrhau system gadarn o Reolaeth a Sicrwydd mewnol. Gall deiliad y swydd fod yn gyfrifol am arweinyddiaeth gyffredinol y portffolio Llywodraethiant a Chydymffurfio sy'n cynnwys Llywodraethiant Corfforaethol, Llywodraethiant a chydymffurfio a Gweithrediadau'r Corff Canolraddol.

5. Manyleb y person

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus ystod o sgiliau a phrofiad, gan gynnwys:

- Cyfrifydd cymwysedig (CCAB neu gyfwerth) sydd â phrofiad helaeth (10 mlynedd a mwy) o arweinyddiaeth ariannol.
- Mae ar ddeiliad y swydd angen y gallu i oruchwylio'r gwaith o sefydlu systemau sy'n darparu llywodraethu da mewn corff cyhoeddus, gan gynnwys rheoli risg, dulliau ariannu a darparu, archwilio a chyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu.
- Y gallu i ddarparu cyngor masnachol a gwybodaeth am arferion da wrth gynllunio busnes.
- Y gallu i oruchwylio rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn, gweithdrefnau ariannol diwedd blwyddyn a phrosesau pennu cyllidebau.
- Y gallu i gynghori a gweithio gydag uwch swyddogion a Gweinidogion.
- Y gallu i oruchwylio a datblygu systemau llywodraethu a rheoli cadarn lle bo angen sy'n cefnogi rôl y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol (e.e. llwybrau archwilio, PPM, Caffael/ grant/masnachol).
- Y gallu i sefydlu a chydlynu prosesau cynllunio busnes.
- Mae angen pobl ragorol a sgiliau dylanwadu i gynnwys y gallu i gyflwyno gwybodaeth a phrosesau cymhleth mewn ffordd ddealladwy ac ymgysylltu â staff ar bob lefel i ddeall a chroesawu'r rhain (calonnau a meddyliau).

Y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon, neu barodrwydd i ddysgu’r iaith ar ôl cael eich penodi. Bydd hyfforddiant, gan gynnwys cymorth a hyfforddiant unigol, ar gael.

6. Cyfleoedd datblygu ar gyfer y Swyddi

- Gweledegdd a chysylltiadau gweinidogol ac uwch ar draws portffolios Llywodraeth Cymru.

- Cyfle i arwain trefniadau ymgysylltu cymhleth a phroffil uchel iawn a fydd yn arwain at gyflawni rhai o brif flaenoriaethau'r llywodraeth hon.

- Disgwylir i ddeiliaid y swyddi fodloni gofynion CPD eu corff proffesiynol, a chânt eu hannog i gymryd rhan yn rhaglenni datblygu staff cyllid Llywodraeth Cymru.

7. Sut i wneud cais

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd ceisiadau yn y naill iaith neu'r llall yn cael eu trin yn gyfartal.

Dylid gwneud cais drwy ddefnyddio system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru erbyn **23:55 29 Awst 2022**

I wneud cais, gofynnir ichi gofrestru i gael cyfrif ar y system ar-lein gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost. Rydym yn argymell eich bod yn dewis cyfeiriad e-bost nad oes gan neb arall fynediad ato, gan mai dyma fydd ein prif ddull o gyfathrebu gyda chi am y broses ddethol.

Os oes gennych nam sy'n golygu na allwch wneud cais ar-lein, anfonwch neges e-bost at: RecriwtioUWS@llyw.cymru i ofyn am fformat arall, neu i ofyn am addasiad rhesymol er mwyn cyflwyno'ch cais

Fel rhan o'r broses recriwtio, gofynnir ichi ddarparu'r canlynol:

- **Ffurflen gais wedi'i chwblhau**;
- **CV diweddar** sy'n cynnwys manylion hanes eich gyrfa gyda chyfrifoldebau a chyflawniadau allweddol;
- **Datganiad personol heb fod yn fwy na dwy ochr A4** yn esbonio sut y mae'ch cymwysterau, sgiliau, rhinweddau a phrofiadau proffesiynol yn eich gwneud yn addas i'r swyddi hyn ac yn benodol, sut rydych yn bodloni manyleb y person.

Recriwtio Dienw

Dylid tynnu eich enw o'ch CV a'ch datganiad personol pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais.

Gwybodaeth am Amrywiaeth

Mae'r Gwasanaeth Sifil wedi ymrwymo i sicrhau gweithlu sy'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu, ar bob lefel, gan gynnwys y lefelau uchaf. Drwy gasglu'r wybodaeth hon, gallwn weld a ydym yn recriwtio o'r pwll ehangaf posibl o ddoniau, a sicrhau bod yr holl grwpiau'n cael eu trin yn deg drwy gydol y broses. Ni fydd y ffurflen hon yn cael ei datgelu i unrhyw un sy'n asesu'ch cais. Os nad ydych am ateb cwestiwn penodol, dewiswch yr opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud'. Ni fydd modd ichi gyflwyno'ch cais os oes unrhyw un o'r cwestiynau ar ôl heb ei ateb.

Cwestiynau a Thrafodaeth Anffurfiol

Os hoffech drafod y rôl hon ymhellach, e-bostiwch RecriwtioUWS@llyw.cymru

Problemau technegol ar-lein

E-bostiwch RecriwtioUWS@llyw.cymru

8. Y broses ddethol

Trosolwg

Bydd y Tîm Recriwtio drwy system Llywodraeth Cymru yn cydnabod eich cais a phan fo'n briodol, fe'ch cynghorir am ganlyniad y cyfarfod ar y rhestr fer a gynhelir ar **6 Medi 2022.**

Asesiadau ar gyfer Ymgeiswyr ar y Rhestr Fer yn Unig

- **Profion Seicometrig Ar-lein** – bydd y rhain yn cynnwys cynnwys rhesymu rhifyddol a geiriol a thrafodaeth gyda seicolegydd. Byddwch yn cael dolen at y profion ar-lein o fewn 10 diwrnod i lunio'r rhestr fer.

  Os ydych wedi cwblhau'r profion seicometrig ar-lein yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, am swydd ar yr un radd, ni fydd angen ichi gymryd y profion hyn eto gyfer yr ymarfer recriwtio penodol hwn.

- **Ymarfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid** – bydd y rhain yn cael eu cynnal ar **16 Medi 2022.** Bydd rhagor o fanylion yn dilyn.

  Bydd y gweithgareddau uchod yn rhan o'r asesiad cyffredinol sy'n ofynnol ar gyfer hyn ymarfer recriwtio yn ogystal â chyfweliad y panel dethol.

- **Cyfweliadau a Chyflwyniadau'r** Panel – mae'r rhain wedi'u trefnu ar gyfer **27 Medi 2022.**
  Bydd y rhain hefyd yn digwydd yn rhithwir drwy Microsoft Teams. Bydd y cyfweliadau'n para tua 45 munud. Bydd y panel yn cael adborth ar eich profion seicometrig a'ch ymarfer ymgysylltu â staff/rhanddeiliaid, cyn ichi gael cyfweliad. Bydd eich cyfweliad yn ystyried sut mae eich sgiliau a'ch profiad fel yr amlinellir yn eich CV a'ch datganiad personol yn bodloni gofynion y rôl.

  Bydd ymgeiswyr yn cael o leiaf wythnos o rybudd o'r pwnc cyflwyno. Byddwch cystal â nodi bod rhaid ichi wneud eich cyflwyniad heb ddefnyddio taflenni na dyfeisiau electronig oni bai eich bod fel rhan o addasiad rhesymol. Er hynny, mae croeso i chi ddefnyddio cardiau cymorth.

Sylwer, gellir gwneud addasiadau recriwtio ar unrhyw ran o'r broses recriwtio ar gyfer ymgeiswyr sydd â nam neu gyflwr iechyd, sy'n niwro-ymwahanol neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Cysylltwch â RecriwtioUWS@llyw.cymru i drafod addasiadau ar gyfer unrhyw ran o'r broses.

Bydd y panel dethol yn cynnwys:

- Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, Swyddfa'r Prif Swyddog Gweithredu
- Peter Kennedy, Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol (Cadeirydd)
- Carla Lyne, Cyfarwyddwr Gweithrediadau ESJ
- Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Bywgraffiadau

Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid

Penodwyd Gawain i swydd Cyfarwyddwr Cyllid ym mis Hydref 2015. Mae ei rôl yn cynnwys cefnogi'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, yr Ysgrifennydd Parhaol ac uwch gydweithwyr, i sicrhau bod gwariant Llywodraeth Cymru yn cael ei reoli ac yr adroddir arno yn briodol.

Mae Gawain yn gweithio gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol i roi cyngor i'r holl Swyddogion Cyfrifyddu ar reoleidd-dra, priodoldeb a materion gwerth am arian mewn perthynas â gweithgareddau Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cadw at y safonau uchaf o ran llywodraethu a rheoli risg. Gawain yw Pennaeth y Proffesiwn ar gyfer Staff Cyllid a Chyfrifyddu o fewn Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am wasanaethau corfforaethol a rennir, cyflwyno'r adroddiad blynyddol a chyfrifon, y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, llywodraethu corfforaethol a thîm cymhorthdal y DU o fewn Llywodraeth Cymru.
Mae Gawain yn aelod o'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol; sy'n cynghori Llywodraeth y DU ar gymhwyso polisi cyfrifyddu.
Cyn ymuno â Llywodraeth Cymru, roedd Gawain gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn lle bu'n gweithio mewn amrywiaeth o feysydd.

Carla Lyne, Cyfarwyddwr Gweithrediadau ESJ

Fy rôl bresennol yw Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r rôl hon yn cynnwys arwain ar bob agwedd ar wasanaethau corfforaethol y Grŵp gan gynnwys cyllid, adnoddau dynol, cyfathrebu, deddfwriaeth, busnes y llywodraeth a llywodraethiant yn ogystal ag arweinyddiaeth yr Is-adran Dysgu Digidol.

Mae gweithio i Lywodraeth Cymru wedi rhoi cyfleoedd eang imi ac rwyf wedi gweithio mewn amrywiaeth o rolau cyn dechrau yn fy rôl bresennol yn 2015. Roedd fy rolau blaenorol yn cynnwys rolau cyllid a gwasanaethau corfforaethol, arwain rhaglenni a gwaith gwerth am arian, gweithio ar gefnogi busnesau Cymru a hefyd gyfnod o amser mewn rôl polisi addysg. Ymunais â Llywodraeth Cymru yn 2006 drwy Gynghorau Cyllido Cymru a'r Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, sef ELWa lle'r oeddwn yn canolbwyntio ar lywodraethu ac archwilio'r sector sgiliau a'r sectorau addysg bellach ac uwch. Roedd hyn yn dilyn fy ngyrfa a'm hyfforddiant cynnar gyda Chyfrifwyr Siartredig Grant Thornton lle'r enillais gymhwyster fel cyfrifydd siartredig ac wedyn bues yn gweithio fel Pennaeth Archwilio Mewnol ym Mhrifysgol Caerhirfryn. Y tu allan i'r gwaith rwy'n mwynhau cerdded bryniau ac unrhyw beth sy'n gysylltiedig â bywyd gwyllt. Rwyf hefyd yn ddysgwr Cymraeg brwd.

Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol

Fy rôl bresennol yw Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru.

Ymunais â Llywodraeth Cymru yn 2004 ar ôl gweithio am nifer o flynyddoedd yn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Treuliais 9 mlynedd gyda'r RAF yn cynnal a chadw awyrennau ac mewn swyddi hyfforddi technegol.

Mae gen i gymwysterau proffesiynol mewn adnoddau dynol ac mae gen i lawer o flynyddoedd o brofiad ar lefel weithredol a strategol o Adnoddau Dynol a phrofiad o TGCH, Iechyd a Diogelwch , Rheoli Cyfleusterau a Chynllunio ar gyfer Argyfyngau.

Mae gen i gyfrifoldebau ychwanegol fel Prif Noddwr y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth.

Rwy'n briod â Jenny ac mae gen i ddau o blant sydd wedi tyfu i fyny ac un wyres. Cafodd Jenny ddiagnosis o Sglerosis Ymledol bum mlynedd yn ôl. Mae'r sefydliad wedi bod yn hynod o gefnogol a hyblyg i'm helpu i daro cydbwysedd effeithiol rhwng bod yn uwch was sifil ac yn ofalwr.

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Ar hyn o bryd, Dean yw Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad a'r Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig o fewn Llywodraeth Cymru.

Yn y rolau hyn mae'n gwasanaethu tri Gweinidog a dau Ddirprwy Weinidog ac yn adrodd yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr Cyffredinol y ddau grŵp. Mae'n aelod o Uwch Dîm Arweinyddiaeth y grŵp ac mae'n atebol am yr holl agweddau gweithredol (AD, Busnes y Llywodraeth, Llywodraethiant, Cyfathrebu) ac agweddau ariannol ar draws y ddau grŵp.

Mae Dean wedi cael gyrfa ddiddorol ac amrywiol, gan symud ymlaen o gyfrifydd dan hyfforddiant graddedig i benderfynwr strategol ac arweinydd gweithredol yn ystod mwy na 30 mlynedd o brofiad ar draws y Gwasanaeth Sifil, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Sector Preifat. Yn ystod y cyfnod hwn mae wedi dal swyddi uwch a oedd yn ei alluogi i arwain ar agendâu rheoli newid strategol a datblygu sefydliadol.

Yn ei rôl bresennol mae'n arwain dwy Gyfarwyddiaeth a gweithlu o tua 150 o staff proffesiynol, ar draws llawer o swyddfeydd yng Nghymru. Mae'r gweithlu ar gyfer y ddau Grŵp wedi'i wasgaru dros 22 o leoliadau ac mae'n gyfanswm o tua 2,500 o staff.

Mae Dean yn ymfalchïo mewn bod yn feddyliwr strategol sy'n gallu gosod cyfeiriad a chynnal hunan-gymhelliant. Mae ganddo enw da am arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu diwygio sefydliadol a newid ariannol.

Aeth i Goleg y Brifysgol, Abertawe lle'r enillodd B.A. (Anrh) mewn Economeg. Yna daeth yn Gyfrifydd Cymwysedig a hefyd fe enillodd radd Meistr mewn Gweinyddu Busnes. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae wedi cymhwyso drwy'r Academi Arweinyddiaeth Prosiectau Mawr (MPLA), cydweithrediad rhwng Swyddfa'r Cabinet a Phrifysgol Rhydychen, gan ddod yn un o nifer bach yn unig o Weision Sifil Llywodraeth y DU sydd â'r cymwysterau i ddatblygu rhaglenni dros £100m

Mae Dean yn byw yng Nghaerdydd, gyda'i wraig a thri o blant. Mae'n mwynhau pêl-droed, golff a bod yn yrrwr tacsi i'w blant

Mae'n caru'r Gwasanaeth Sifil ac yn teimlo'n gryf am y rôl y gall ei chwarae wrth newid bywydau pobl yng Nghymru. Fel hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Grŵp, mae'n frwd o blaid sicrhau bod y gweithle'n amgylchedd diogel a chynhwysol lle y gall pobl gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Y Cynllun Cyf-weld Hyderus o Ran Anabledd

Fel rhan o'n hymrwymiad i annog pobl anabl i ymgeisio am swydd yn Llywodraeth Cymru, byddwn yn cynnig cyfweliad i bobl anabl sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae 'meini prawf gofynnol' yn golygu bod yn rhaid i chi roi tystiolaeth i ni yn eich cais sy'n dangos eich bod, yn gyffredinol, yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y rôl a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir fel rhai hanfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu diffiniad y model cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod yna rwystrau mewn cymdeithas sy'n analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu aelodau staff newydd posibl) berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a bod angen ichi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu os hoffech drafod sut y byddwn yn gwneud addasiadau os bydd eich cais yn llwyddiannus, anfonwch e-bost at RecriwtioUWS@llyw.cymru cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i gael trafodaeth.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogaeth a datblygiad gyrfa pobl anabl.

Lle Gwych i Weithio i Gyn-filwyr

Mae'r swydd wag hon yn rhan o'r fenter Lle Gwych i Weithio i Gyn-filwyr

Cymwyseddau

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr ddangos eu cynhwysedd yn erbyn yr ystod lawn o sgiliau arweinyddiaeth a sgiliau craidd SCS a nodwyd ar gyfer Uwch Weision Sifil fel rhan o Fframwaith Cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil.

I gael rhagor o wybodaeth am gymwyseddau craidd, ewch i'r ddogfen lawn yma.

Cod y Gwasanaeth Sifil

Mae disgwyl i bob gwas sifil gydymffurfio â Chod y Gwasanaeth Sifil; Gweler Atodiad B.

Amserlen fras

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **29 Awst 2022**

Cyfarfod ar y Rhestr Fer: **6 Medi 2022**

Profion seicometrig: o fewn 10 diwrnod i'r cyfarfod ar y rhestr fer

Ymarfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: **16 Medi 2022**

Panel cyf-weld: **27 Medi 2022**

Bydd yr holl asesiadau uchod yn cael eu cynnal o bell drwy Microsoft Teams. Gall y dyddiadau a nodir uchod newid.

9. Telerau'r Penodiad

Mae'r rhain yn swyddi parhaol sydd ar gael i weithwyr parhaol Gwasanaeth Sifil y DU (a gaiff eu recriwtio drwy gystadleuaeth deg ac agored) ar sail symud ar draws a dyrchafiad. Mae'r swyddi hyn hefyd ar gael i'r rhai sy'n dymuno ymuno â'r Gwasanaeth Sifil ac i'r rhai sy'n dymuno gwneud cais ar sail cael eu benthyg, neu ar sail secondiad am hyd at ddwy flynedd i ddechrau.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais
Fel rhan o'ch cais, gofynnir nifer o gwestiynau i chi. Diben y cwestiynau hyn yw penderfynu a ydych yn gymwys i wneud cais am y cyfle hwn. Gofynnir ichi gadarnhau i ba genedl rydych chi'n perthyn a bod gyda chi hawl gyfreithiol i weithio yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn ofynnol er mwyn gweithio yn y Gwasanaeth Sifil. Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn y ffurflen gais, ni fyddwn yn mynd â'ch cais ymhellach. Os daw i'r amlwg yn nes ymlaen yn y broses nad ydych yn gymwys i wneud cais, efallai y caiff eich cais/cynnig ei dynnu'n ôl.

Gofynion cenedligrwydd

Mae'r swydd hon yn agored yn fras i'r grwpiau canlynol:

- gwladolion y DU
- gwladolion o wledydd y Gymanwlad sydd â'r hawl i weithio yn y DU
- gwladolion Gweriniaeth Iwerddon
- gwladolion o'r UE, AEE neu'r Swistir sydd â statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog neu sy'n gwneud cais am y naill statws neu'r llall erbyn dyddiad cau Cynllun Preswylydd Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd (EUSS)
- gwladolion perthnasol o'r UE, AEE, y Swistir neu Dwrci sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Sifil
- gwladolion perthnasol o'r UE, AEE, y Swistir neu Dwrci sydd wedi ennill yr hawl i weithio yn y Gwasanaeth Sifil
- rhai aelodau o'r teulu o wladolion perthnasol yr UE, AEE, y Swistir neu Dwrci

Rhagor o wybodaeth am ofynion cenedligrwydd

Tâl cydnabyddiaeth

Mae'r rôl ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr ac mae'r **cyflog cychwynnol tua £71,000.**

Gweithwyr sydd eisoes yn weision sifil

Os ydych yn Ddirprwy Gyfarwyddwr presennol sy'n ymgeisio ar sail symud ar draws i Lywodraeth Cymru byddwch yn cadw eich cyflog presennol

Os ydych yn Was Sifil sy'n gwneud cais am ddyrchafiad bydd y cyflog cychwynnol ar ôl y dyrchafiad yn golygu cynnydd o 10% i'r cyflog sylfaenol neu bydd ar lefel isaf y band cyflog, pa un bynnag sydd uchaf. Er hynny, bydd staff sy'n cael dyrchafiad o uchafswm band cyflog Gradd 6 yn gweld cap o 5% ar y cynnydd, neu bydd ar lefel isaf band cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil, pa un bynnag sydd uchaf.

Secondiad

Os ydych yn ymgeisio am y swydd hon ar sail secondiad, byddwch yn cadw'ch telerau ac amodau presennol, gan gynnwys y cyflog.

Oriau gweithio

Croesewir ceisiadau gan bobl sy'n gweithio'n llawn amser, yn rhan-amser, neu fel rhan o drefniant rhannu swydd. Os byddwch yn gwneud cais fel partneriaeth rhannu swydd, disgwylir bod y trefniant hwn yn ei le pan fyddwch yn cyflwyno eich cais a dylech sicrhau ei bod yn glir ar eich ffurflenni cais eich bod yn ymgeisio fel rhan o bartneriaeth rhannu swydd. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gweithio'n rhan-amser ac os bydd rhywun sydd am weithio'n rhan-amser yn llwyddiannus, byddwn yn gwneud addasiadau cymesur i gyfrifoldebau'r swydd.

Lleoliad

Gall deiliad y swydd weithio o unrhyw un o Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghymru, sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful, Cyffordd Llandudno ac Aberystwyth. Er hynny, oherwydd natur y gwaith a'r angen i gyfarfod â'r Gweinidogion, disgwylir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio o Gaerdydd 2-3 diwrnod yr wythnos.

Rydym yn cefnogi gweithio gartref a theilwra patrymau i gyd-fynd ag amgylchiadau unigolion.

Mae'r rhan fwyaf o staff Llywodraeth Cymru yn gweithio gartref/yn gweithio o bell ar hyn o bryd a bydd hyn yn parhau i ryw raddau er mwyn inni allu lleihau ein heffaith amgylcheddol a chefnogi pobl i weithio'n agosach at y cymunedau y maent yn byw ynddynt.

Adleoli

Mae'n bosibl y bydd costau adleoli o hyd at £8,000 ar gael.

Gweithio'n Glyfar
Mae Llywodraeth Cymru yn hybu Gweithio'n Glyfar. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar sut yr ydych yn defnyddio'ch amser a ble a sut yr ydych yn gweithio, er mwyn diwallu anghenion busnes yn y ffordd fwyaf hyblyg a chynhyrchiol. Mae hyn yn rhoi cryn hyblygrwydd i staff a'r disgwyl yw y bydd timau'n gweithio gartref am ganran uchel o'r amser hyd y gellir rhagweld. Mae gweithio'n glyfar ac yn hyblyg yn dod yn nodwedd barhaol ar fywyd gwaith yng Nghymru a bydd Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd yn hyn o beth.

Gwyliau Blynyddol
Hyd gwasanaeth

- Hyd at flwyddyn – hawl i 25 diwrnod o wyliau blynyddol;
- 1 flwyddyn - hyd at 2 flynedd – hawl i 26 diwrnod o wyliau blynyddol;
- 2 flynedd - hyd at 3 blynedd – hawl i 27 diwrnod o wyliau blynyddol;
- 3 blynedd - hyd at 4 blynedd – hawl i 28 diwrnod o wyliau blynyddol;
- 4 blynedd - hyd at 5 mlynedd – hawl i 29 diwrnod o wyliau blynyddol;
- 5 mlynedd neu fwy – hawl i 30 diwrnod o wyliau blynyddol.

Os bydd gweithiwr sydd eisoes yn was sifil yn cael ei ddyrchafu i'r Uwch Wasanaeth Sifil neu o'i fewn, bydd ei hawl i wyliau blynyddol yn seiliedig ar y cyfnod y bydd wedi cael ei gyflogi'n barhaus yn y Gwasanaeth Sifil, fel y gwelir isod.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benodi yn unol â thelerau ac amodau diweddaraf yr Uwch Wasanaeth Sifil.

Ymddeol
Nid oes oedran ymddeol gorfodol ar gyfer Uwch Weision Sifil.

Telerau a Buddion
Cynllun Pensiwn: https://www.civilservicepensionscheme.org.uk

- Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol, gan gynnwys cwnsela a gofal llygaid.
- Darpariaethau absenoldeb gan gynnwys:

  – Absenoldeb gofalwyr;
  – Absenoldeb mamolaeth â thâl a di-dâl;
  – Absenoldeb tadolaeth â thâl hyblyg;
  – Absenoldeb mabwysiadu â thâl hyblyg;
  – Absenoldeb rhiant a rennir.

Gwrthdaro Buddiannau

Rhaid i ymgeiswyr nodi bod yn rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau a allai arwain at gwestiynau am y ffordd y maent yn ymdrin â busnes Llywodraeth Cymru.

Rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau busnes perthnasol, cyfranddaliadau, swyddi o awdurdod, taliadau cadw, trefniadau ymgynghori neu gysylltiadau eraill â chyrff masnachol, cyhoeddus neu wirfoddol, o'u rhan eu hunain ac o ran eu gŵr/gwraig neu bartner.

Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus roi'r gorau i unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro, ac mae'n bosibl y caiff ei fuddiannau busnes ac ariannol eraill eu cyhoeddi.

Y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol

Daw'r swydd hon o dan y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol.

Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal. Ein nod yw sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu hymgorffori yn ein harferion gwaith o ddydd i ddydd gyda'n holl gwsmeriaid, cydweithwyr a phartneriaid. Mae gan y Bwrdd Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac mae'n cael diweddariadau rheolaidd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a phobl anabl sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd yn yr Uwch Wasanaeth Sifil.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth, dileu rhwystrau a chefnogi ein holl staff i gyrraedd eu potensial. Rydym yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall ac yn sefydliad Hyderus o ran Anabledd lefel 3 (Arweinydd). Mae pum Rhwydwaith Staff sy'n cael eu noddi gan y Bwrdd yn allweddol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ac er mwyn rhoi cefnogaeth gan gymheiriaid, sef Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd (DAAS); Rhwydwaith Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig (MESN); Materion y Meddwl (iechyd a llesiant meddwl); Prism (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol, Traws, Rhyngrywiol +) a Menywod Ynghyd.

Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil

Mae prosesau recriwtio Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar yr egwyddor o benodi yn ôl teilyngdod, ar sail cystadleuaeth deg ac agored, fel y nodir yn Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil sydd i'w gweld yn: http://civilservicecommission.independent.gov.uk/

Os ydych yn teimlo nad yw eich cais wedi cael ei drin yn unol â'r Egwyddorion Recriwtio, ac os hoffech wneud cwyn, dylech gysylltu â RecriwtioUWS@llw.cymru yn y lle cyntaf.

Os na fyddwch yn fodlon â'r ymateb a gewch gan Lywodraeth Cymru, gallwch gysylltu â Swyddfa Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

Lefel diogelwch

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gael cliriad diogelwch ar lefel Gwiriad Diogelwch cyn dechrau yn y swydd. Mae'r amserlen ar gyfer cael cliriad diogelwch yn amrywio, ond gall gymryd rhwng 10 ac 12 wythnos o ddyddiad derbyn y gwaith papur wedi'i gwblhau.

Atodiadau

Atodiad A: DATGANIAD ARWEINYDDIAETH Y GWASANAETH SIFIL

Atodiad B: COD Y GWASANAETH SIFIL